**Agenda**

**ELL 13-01(agd)**

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Dyddiad: 11 Gorffennaf 2001

Amser: 1.30pm

Lleoliad: Ystafelloedd Pwyllgora 3&4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Agenda**

**Sesiwn Breifat**

**Eitem Un: Adolygu Polisi – Addysg Uwch – Cam Gwerthuso III**

**(90 munud)**

Bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â Cham Gwerthuso III yr Adolygiad Addysg Uwch mewn sesiwn breifat.

**Sesiwn Gyhoeddus**

**Eitem Dau: Adroddiad y Gweinidog (45 munud)**

Adroddiad Misol i'r Pwyllgor yw hwn o faterion y mae'r Gweinidog wrthi'n ymdrin â nhw. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys eitemau y mae'r Aelodau wedi gofyn i'r Gweinidog am adroddiadau arnynt.

***Papurau: ELL 13-01 (p.1) Adroddiad y Gweinidog***
***ELL 13-01 (p.2) Cyllidebau Refeniw a osodwyd gan Awdurdodau Lleol 2001-2002***

| |
|---|
| **Bydd egwyl o 15 munud** |

**Eitem Tri: Adolygu Polisi – Addysg Uwch – Adroddiad y Grwp Ymchwilio i Galedi ac Ariannu Myfyrwyr yng Nghymru (60 munud)**

Cyflwynwyd Adroddiad y Grwp *"Buddsoddi mewn Dysgwyr: Cydlyniad, eglurder a chydraddoldeb i gymorth myfyrwyr yng Nghymru"*, gan yr Athro Teresa Rees, Cadeirydd y Grwp Ymchwilio i Galedi ac Ariannu Myfyrwyr yng Nghymru i'r Gweinidog Addysg ac Addysg Gydol Oes ar 14 Mehefin 2001. Bydd yr Athro Rees yn gwneud cyflwyniad ar yr adroddiad (10 munud) gyda cyfle i gwestiynu a thrafod i'w ddilyn. Hefyd fe fydd Rob Humphreys a Ken Richards, dau aelod o'r grwp yn bresennol.

**Eitem Pedwar: Ystyriaeth Bellach o Flaenoriaethau Cyllid (30 munud)**

Bydd y Pwyllgor yn ail-ddechrau trafodaeth y cyfarfod blaenorol (ELL 12-01), i bennu blaenoriaethau cyfnod Cylch Cynllunio Cyllideb 2001.

**Eitem Pump: Cofnodion Cyfarfod 27 Mehefin**

***Papur: ELL 12-01 (min)***

Bydd cyfle i ’r Pwyllgor gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf.

ELL 13-01 (agd)